CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L

2006 Rhif

ADDYSG, CYMRU

Cynllun i gymell Hyfforddiant Athrawon 2006

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pwerau i ddarparu cymorth ariannol o dan adrannau 14-17 o Ddeddf Addysg 2002 i hybu a recriwtio neu gadw athrawon neu staff nad ydynt yn addysgu. Gwneir y Cynllun hwn i Gymell Hyfforddiant Athrawon ("y Cynllun") drwy arfer y pwerau hynny.

Mae'r Cynllun yn gwneud darpariaeth i'r Cynulliad dalu grantiau ar ffurf cymelliadau i bersonau cymwys i ddilyn cwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig ac ar ffurf cymelliadau i bersonau cymwys fynd i swyddi addysgu penodol am gyfnodau gofynnol o amser.

Cyhoeddir canllawiau ar wahân gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a rhaid i'r sawl sy'n arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Cynllun roi sylw i'r canllawiau hynny.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L

2006 Rhif

ADDYSG, CYMRU

CYNLLUN I GYMELL HYFFORDDIANT ATHRAWON

2006

Wedi'i wneud	*2006*
Yn dod i rym	*2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol, wrth arfer y pwer a roddwyd iddo gan adrannau 14,15, 16 ac 17 o Ddeddf Addysg 2002, yn gwneud y Cynllun canlynol:

Teitl, cychwyn a chymhwyso

1-(1) Teitl y Cynllun hwn yw Cynllun i Gymell Hyfforddiant Athrawon 2006.

3. Daw'r Cynllun hwn i rym ar 21 Medi 2006 ac mae'n gymwys i Gymru yn unig.

(a) Dehongli

2 (1) Onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, at ddibenion y Cynllun –

ystyr “Llywodraeth Cynulliad Cymru” *(“Welsh Assembly Government”)* yw adain weithredol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a ffurfir gan aelodau o Gabinet y Cynulliad a'r staff sy'n gweithio iddo, sydd yn arfer swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "sefydliad achrededig" *("accredited institution")* yw sefydliad a achredir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru fel darparydd cyrsiau sy'n bodloni'r cyfryw ddarpariaethau ynglyn â chwricwla a meini prawf eraill y gellir eu pennu o bryd i'w gilydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr “ysgol a gynhelir” *(“maintained school”)* yw ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol neu ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig yn ystyr Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr “cwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig” *(“postgraduate teacher training course”)* yw cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon ôl-raddedig llawnamser, rhan-amser neu hyblyg, sy'n cael ei ddarparu mewn sefydliad achrededig yng Nghymru; ac sy'n golygu bod person sy'n ei gwblhau yn llwyddiannus yn dod yn athro cymwysedig neu'n athrawes gymwysedig. Yn y cyd-destun hwn mae "hyblyg" yn nodi bod hyd a phatrwm yn cwrs wedi'i bennu gan gyfeirio at brofiad a gofynion hyfforddi'r myfyriwr.

mae i "athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig" yr ystyr a roddir i “qualified teacher” gan adran 132(1) o Ddeddf Addysg 2002: sef “a person who satisfies requirements specified in regulations” (y Rheoliadau sydd yn gyfredol mewn grym yw Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004, OS 2004/1729).

CYNLLUN I GYMELL HYFFORDDIANT ATHRAWON 2006

Grantiau cymell

3. Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru dalu grantiau o dan y paragraff hwn (“grantiau hyfforddi”) ar ffurf cymelliadau i bersonau fel y'u diffinnir ym mharagraff 6 a naill ai baragraff 7 neu 8 i ymgymryd â chwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig.

4. Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru dalu grantiau o dan y paragraff hwn (“grantiau addysgu”) ar ffurf cymelliadau i bersonau fel y'u diffinnir ym mharagraff 11 a 'r rhai ym mharagraff 9 neu 10 i fynd i swyddi addysgu penodol am gyfnodau gofynnol o amser.

5. Mae'r grantiau sydd ar gael o dan y Cynllun hwn yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir ym mharagraffau 15-21.

Cymhwyster ar gyfer grantiau hyfforddi

6. I fod yn gymwys ar gyfer grant hyfforddi, rhaid i berson:-

(a) fod yn ymgymryd â hyfforddiant ar gwrs hyfforddi cychwynnol athrawon ôl-raddedig;

(b) bodloni'r gofynion ar gyfer “myfyrwyr cymwys” o dan y rheoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 sydd mewn grym ar hyn o bryd wrth iddynt ymgeisio am y cwrs hwnnw;

(c) peidio â bod wedi'i gyflogi i addysgu mewn unrhyw ysgol neu sefydliad addysgol arall mewn swyddogaeth heblaw athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig;

(d) peidio â bod yn gyfranogwr mewn hyfforddiant a drefnwyd o dan Gynllun Hyfforddi Athrawon a Seiliwyd ar Gyflogaeth a wnaed o dan Reoliad 8 o Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004; a

(dd) peidio â bod yn ymgymryd â chwrs addysg bellach o unrhyw fath

7. I fod yn gymwys i gael grant hyfforddi hyd at £7,200, rhaid bod person yn ymgymryd â hyfforddiant ar gwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig a oedd yn cychwyn ar ôl 1 Medi 2006, ac yn astudio mathemateg, pynciau gwyddonol, ieithoedd modern, dylunio a thechnoleg, TGCh, Saesneg (gan gynnwys drama), Cymraeg, cerddoriaeth neu addysg grefyddol ar lefel uwchradd.

8. I fod yn gymwys i gael grant hyfforddi hyd at £4,200, rhaid bod person yn ymgymryd â hyfforddiant ar gwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig a oedd yn cychwyn ar ôl 1 Medi 2006, heblaw cwrs mathemateg pynciau gwyddonol, ieithoedd modern, dylunio a thechnoleg, TGCh, Saesneg (gan gynnwys drama), Cymraeg, cerddoriaeth neu addysg grefyddol ar lefel uwchradd.

Cymhwyster ar gyfer grantiau addysgu

9, I fod yn gymwys i gael grant addysgu hyd at £5,000, rhaid bod person wedi'i hyfforddi ar gwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig a oedd yn cychwyn ar ôl 1 Medi 2006, yn astudio mathemateg neu bynciau gwyddonol ar lefel uwchradd fel ei unig bwnc neu ei brif bwnc, a rhaid iddo fodloni'r meini prawf a nodir ym mharagraff 11.

10. I fod yn gymwys i gael grant addysgu hyd at £2,500, rhaid bod person wedi'i hyfforddi ar gwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig a oedd yn cychwyn ar ôl 1 Medi 2006, yn astudio unrhyw un o'r pynciau canlynol fel ei unig bwnc neu ei brif bwnc ar lefel uwchradd:-

(a) unrhyw iaith dramor fodern;

(b) technoleg (gan gynnwys technoleg gwybodaeth, dylunwaith a thechnoleg)

(c) Saesneg (gan gynnwys drama);

(ch) Cymraeg

(d) Cerddoriaeth

(e) Addysg Grefyddol

a rhaid bodloni'r meini prawf a nodir ym mharagraff 11.

11. Os bydd person yn bodloni'r meini prawf cymhwyster a ddisgrifir ym mharagraffau 8 neu 9, er mwyn bod yn gymwys i gael grant addysgu, rhaid bod person:-

(a) wedi cael grant hyfforddi, neu wedi cael y swm llawn o unrhyw randaliadau o grant a oedd yn daladwy o ran y cyfnod pan oedd yn ymgymryd â chwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig o dan unrhyw drefniadau sy'n gymwys yn Lloegr y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i fodloni eu bod yn cyfateb i'r trefniadau a wnaed o ran grantiau hyfforddi yn unol â'r Cynllun hwn; a

(b) wedi cwblhau'r cwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig yn llwyddiannus; ac

(c) wedi cwblhau'n llwyddiannus unrhyw gyfnod Cynefino yng Nghymru neu yn Lloegr sy'n ofynnol o dan reoliadau a wnaed

o dan Ddeddf Addysg 2002 sydd ar y pryd mewn grym; ac

(ch) yn ddarostyngedig i baragraff 15, o fewn 12 mis o gwblhau'n llwyddiannus ei gyfnod Cynefino, wedi sicrhau cyflogaeth mewn swydd berthnasol ac wedi dechrau addysgu yn y swydd honno.

12. At ddibenion paragraff 11, ystyr "swydd berthanasol" yw:-

a) swydd mewn ysgol uwchradd a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir yng Nghymru; ac y mae'n

(b) swydd barhaol neu'n un ar gontract am gyfnod penodol sengl gyda'r ysgol neu'r awdurdod addysg lleol sydd yn para am o leiaf bedwar mis, yn llawnamser neu'n rhan-amser; ac y mae

(c) lle mae athro/athrawes dan gontract i addysgu, fel isafswm, am fwy na 50% o'i amser addysgu, bwnc y cwblhaodd yr athro neu'r athrawes gwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig ynddo yn llwyddiannus a chael grant hyfforddi.

13. Caiff y cyfnod 12 mis ym mharagraff 11(ch) ei amrywio yn yr amgylchiadau canlynol:-

(a) os na fydd person yn gweithio oherwydd beichiogrwydd, caiff y cyfnod o 12 mis rhwng cwblhau'r cyfnod cynefino'n llwyddiannus a chychwyn mewn swydd berthnasol ei ymestyn i ddwy flynedd;

(b) os caiff person ei ardystio gan feddyg yn anffit yn feddygol i weithio, caiff y cyfnod o 12 mis rhwng cwblhau'r cyfnod cynefino'n llwyddiannus a chychwyn mewn swydd berthnasol ei ymestyn am y cyfnod y cafodd y person ei ardystio'n anffit yn feddygol; ac

(c) os yw rhywun yn gofalu am ddibynnydd ar sail lawnamser, caiff y cyfnod o 12 mis rhwng cwblhau'r cyfnod cynefino'n llwyddiannus a chychwyn mewn swydd berthnasol ei ymestyn i ddwy flynedd.

14. Ym mharagraffau 9-12, ystyr “cwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig” yw cwrs hyfforddi cychwynnol athrawon ôl-raddedig llawnamser, rhan-amser neu hyblyg sy'n cael ei ddarparu mewn sefydliad achrededig yng Nghymru neu yn Lloegr ac sy'n golygu bod person sy'n ei gwblhau yn llwyddiannus yn dod yn athro cymwysedig neu'n athrawes gymwysedig. Yn y paragraff hwn mae "hyblyg" yn nodi bod hyd a phatrwm yn cwrs wedi'i bennu gan gyfeirio at brofiad a gofynion hyfforddi'r myfyriwr.

Amodau

15. Ni thelir grant o dan baragraffau 3 a 4 i berson onid yw wedi gwneud cais i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y ffurf, ar yr adeg a chan gynnwys y manylion hynny y caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru benderfynu arnynt.

16. Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ôl ei ddisgresiwn beidio â thalu grant o dan baragraff 3 i fyfyrwyr a gafodd eu derbyn ar gwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig ar ôl i'r targed derbyn ar gyfer y cwrs hwnnw, fel y'i hysbysir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, gael ei gyrraedd.

17. Bydd gan berson sy'n gymwys i gael grant hyfforddi ac sy'n ymuno â chwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig sydd eisoes wedi cychwyn neu sy'n ymadael â'r cwrs cyn ei gwblhau yr hawl yn unig i swm y grant sy'n gymesur i'r amser mewn cyfnodau o fisoedd llawn y mae'n ei dreulio ar y cwrs.

18. Bydd gan berson sydd fel arall yn gymwys i gael grant hyfforddi ac sydd hefyd wedi cael grant hyfforddi o unrhyw swm cyn 1 Medi 2005, neu sydd wedi cael unrhyw swm o unrhyw grant sy'n daladwy o ran cyfnod pan oedd yn ymgymryd â chwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig o dan unrhyw drefniadau sy'n gymwys yn Lloegr y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i fodloni eu bod yn cyfateb i'r trefniadau a wnaed o ran grantiau hyfforddi yn unol â'r Cynllun hwn, yr hawl yn unig i grant hyfforddi a gaiff ei leihau gan swm unrhyw grant a gafwyd yn flaenorol. Mae grantiau hyfforddi i fyfyrwyr sy'n ailafael ar gwrs neu'n dechrau ar gwrs a gafodd ei ohirio yn cael eu talu ar y gyfradd grant hyfforddi sy'n gymwys yn y flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr yn ymuno/ailymuno

â'r cwrs, oni fydd Llywodraeth Cymulliad Cymru yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig.

19. Ym mharagraff 18, ystyr “cwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig” yw cwrs hyfforddi cychwynnol athrawon ôl-raddedig llawnamser, rhan-amser neu hyblyg a ddarperir mewn sefydliad achrededig yn Lloegr ac sy'n golygu bod person sy'n ei gwblhau yn llwyddiannus yn dod yn athro cymwysedig neu'n athrawes gymwysedig. Yn y paragraff hwn mae "hyblyg" yn nodi bod hyd a phatrwm yn cwrs wedi'i bennu gan gyfeirio at brofiad a gofynion hyfforddi'r myfyriwr.

20. Bydd gan berson sydd fel arall yn gymwys i gael grant hyfforddi ac sydd hefyd wedi cael grant o unrhyw swm o dan Reoliadau Addysg (Cymhelliant Hyfforddi Athrawon Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cymru) 1999 neu unrhyw reoliadau cyfatebol sy'n gymwys ar y pryd yn Lloegr, yr hawl yn unig i grant hyfforddi a gaiff ei leihau gan swm unrhyw grant blaenorol a gafwyd o dan y rheoliadau hynny.

21. Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn ofynnol i unrhyw grant a dalwyd yn unol â pharagraffau 3 a 4 gael eu had-dalu yn gyfan neu'n rhannol:-

(a) ar ôl cael unrhyw randaliad o grant, os yw'r derbynnydd yn methu bodloni unrhyw feini prawf cymhwyster a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn cysylltiad â rhandaliad dilynol; neu

(b) os yw'n darparu ar gyfer ad-dalu grant pan fydd derbynnydd wedi rhoi, yn ei gais am grant neu mewn cysylltiad ag ef, wybodaeth sy’n dwyllodrus neu'n sylweddol o gamarweiniol;

(c) os oedd tystiolaeth gadarn nad oedd erioed wedi bwriadu cwblhau'r cwrs neu, ar ôl ei gwblhau, nad oedd erioed wedi bwriadu mynd i swydd addysgu.

Talu grant

24. Gellir talu'r grantiau o dan baragraffau 3 a 4 mewn cyfandaliad neu mewn rhandaliadau ac ar yr adegau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn penderfynu arnynt, a chaiff Llywodraeth Cynulliad Cymru yn benodol benderfynu bod rhandaliadau yn daladwy ar ddyddiadau y caiff eu pennu ar ôl i'r person gychwyn yn ei swydd addysgu fel athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig.

25. Yn achos unrhyw grant sy'n daladwy o dan baragraff 3, tra bydd person yn ymgymryd â chwrs hyfforddi athrawon ôl-raddedig, caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu cyllid i sefydliad achrededig ar gyfer y cyfryw daliad i'r person hwnnw ar yr adegau y caiff gyfarwyddo.

Gweinyddu

24. Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu sefydliadau achrededig sy'n cael cyllid o dan baragraff 25 gyda grant hyd at 2% o gyfanswm y cyllid a geir mewn cydnabyddiaeth o gostau gweinyddol a chostau cysylltiedig sy'n ymwneud â thaliadau o dan y paragraff hwnnw.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y LLYWYDD:

Dyddiad: